

Mynediad o Bell i Rwydwaith VOG trwy Docyn RSA ar gyfer


Dyfeisiau Apple

Mae mynd ar-lein yn hawdd. Dilynwch y camau hawdd hyn yn eu tro a byddwch yn barod i fynd mewn dim o dro!

Cyn cwblhau'r camau, dylech fod wedi cael e-bost gan yr adran TGCh gyda ffeil **.sdtid** wedi ei hatodi a chyfrinair. Darllenwch bob cam yn ofalus cyn ceisio lawrlwytho'r app a chysylltu eich cyfrifiadur neu liniadur â'r rhwydwaith.


Cam un - lawrlwytho a gosod yr app tocyn RSA ar ffôn symudol Apple iOS:

1. Agorwch yr **App Store** ar eich ffôn symudol.
2. Chwiliwch am **RSA SecureID Software Token** a dewiswch **Get** i lawrlwytho'r app (gweler Ffigur 1).
3. Pan agorwch yr app, derbyniwch y Telerau a'r Amodau.




Ffigur 1

4. Agorwch eich e-bost ar eich ffôn symudol a dewiswch yr e-bost oddi wrth yr adran TGCh a chliciwch ar y ffeil **.sdtid** ynddo.
5. Bydd blwch newydd yn ymddangos o waelod eich sgrin. Pan fo'r Apps yn ymddangos, sgroliwch i ochr dde yr apps a dewiswch **more** (gwelwch Ffigur 2).




Figur 2

6. Sgrolwch i lawr i waelod y sgrin a dewiswch **copy to Token** (gweler Ffigur 3).



Figur 3

7. Bydd hyn nawr yn agor yr **App tocyn RSA** ac yn dangos neges bod y tocyn wedi'i osod yn llwyddiannus, dewiswch **OK**. Efallai y gofynnir i chi am gyfrinair - gallwch ddod o hyd i hwn yn yr e-bost gwreiddiol a oedd yn cynnwys y linc i'ch tocyn.
8. Y Dylech nawr weld 8 digid, sy'n adnewyddu bob 50 eiliad (gweler Ffigur 4).



Ffigur 4


Bydd angen i chi agor yr app hwn bob tro rydych yn dymuno mewngofnodi o'ch cartref.

Cam Dau - Gosod Dull Mynediad ar eich Cyfrifiadur

9. Ar eich gliniadur neu gyfrifiadur gwaith, datgysylltwch oddi wrth y VPN neu Cassiopeia a chysylltu â rhyngwyd eich cartref. (Sylwch efallai y bydd angen i chi ddatgysylltu'r VPN VoG hyd at bedair gwaith cyn yr arhosiff wedi'i ddatgysylltu)
10. Dewiswch y ddolen **Mynediad o Bell** ar eich bwrdd gwaith neu ewch i <https://remoteaccess.valeofglamorgan.gov.uk> yn eich porwr gwe (defnyddiwch Internet Explorer).



11. Rhwch eich enw defnyddiwr Windows e.e. gemwilliams.
12. Ar gyfer Cod Pas, agorwch yr **app tocyn RSA** a rhwch yr 8 rhif a ddangosir. Cofiwch y bydd y rhif hwn yn diweddarau bob 50 eiliad (gwelwch ffigur 1).



Remote Access Logon
for the Vale of Glamorgan
Council.


Username
gemwilliams

Passcode
.....

Logon

Ffigur 1


13. Bydd gofyn i chi osod PIN nawr. Dewiswch **yes** a chlicio **logon** (gwelwch ffigur 2).
14. Dewiswch a theipiwch rif **PIN** rhwng 4 – 8 digid a dewis **logon** (gweler ffigur 3).



To continue you must enter a new PIN.
Are you ready to enter a new PIN?

No ▾
No
Yes

Ffigur 2



Enter a new PIN between 4 and
8 alphanumeric characters:

....


Logon

Ffigur 3

15. Ar ôl gwneud hyn, bydd wedi ei osod!
16. I fewngofnodi, rhwch eich enw defnyddiwr Windows a'r cod pas, sef eich PIN, ac wedyn y 8 digid a gewch gan yr app RSA (gweler ffigur 4).

Er enghraifft, petai eich PIN yn 9876 a'r app RSA yn dangos 1234 5678, byddech yn rhoi 987612345678 fel y cod pas.

Cofiwch y bydd y rhif hwn yn diweddarau bob 50 eiliad, dylech defnyddio'r rhif diweddaraf.




PIN accepted.
Wait for the tokencode to
change if you have a token.
Please enter a new PASSCODE:

Logon


Ffigur 4

Cam tri – Mynd ar-lein


17. Dewiswch y botwm **Mynediad Llawn Bro Morgannwg**:



18. Gofynnir i chi ddewis **Open F5 Network VPN**:



19. Rydych chi nawr wedi cysylltu â'r rhwydwaith ac yn gallu gweithio fel arfer.



Ar Gyfer Mewngofnodi ar ôl hyn

1. Mewngofrestrwch i Windows yn ôl yr arfer.
2. Dewiswch y ddolen **Mynediad o Bell** ar eich bwrdd gwaith.
3. Agorwch yr app RSA ar eich ffôn symudol.
4. Yn y Sgrin Mewngofnodi Mynediad o Bell, rhowch eich Enw Defnyddiwr Windows.
5. Yn y blwch cod pas, rhowch eich PIN ac yna'r 8 digid sy'n dangos yn yr app RSA ar eich ffôn symudol.
6. Dewiswch fotwm **Mynediad Llawn Bro Morgannwg**:
7. Dewiswch **Open F5 Network VPN** pan ofynnir i chi.